Datganiadau Mynediad

Paratowyd y nodyn gwybodaeth hwn gan Adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel cyfarwyddyd dros dro hyd nes y bydd Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi cwblhau eu cyfarwyddyd hwy. Ni ddylid ei ystyried yn derfynol, ond ei fwriad yw cynorthwyo ymgeiswyr i gynhyrchu datganiadau. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd o bosibl faterion pellach ddylid eu cynnwys yn eu datganiadau.

Ar gael mewn diwygiau eraill

Pwrpas

Bwriad datganiad mynediad yw dangos sut mae safle neu ddatblygiad arbennig yn darparu ar gyfer anghenion pobl gyda symudedd is, ond dylid hefyd ystyried y rhai hynny gydag anableddau synhwyraidd addysgol.

Prif nod paratoi datganiad yw gwneud i ymgeiswyr feddwl am eu bwriad/cynllun a sut y bydd pobl yn gallu mynd i, defnyddio a symud drwy'r datblygiad ar amodau cyfartal beth bynnag fo'u hoedran, rhyw neu anabledd.

Nid cofnodi cyfleusterau/nodweddion y datblygiad ar y safle neu'r ardal yw prif nod paratoi'r datganiad (er mai dyma'n union yw'r hyn a wna). Yn ddelfrydol dylid dechrau arno cyn bo dyluniad neu osodiad y cynllun wedi datblygu y tu hwnt i'w gamau cyntaf fel y gellir corffori cywiriadau yn hawdd i mewn i'r cynllun.

Fe'ch atgoffir nad yw cymeradwyo eich cynllun, o anghenraid yn golygu y bydd eich cynllun yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Ymdriniaeth

Yn gyffredinol ni fydd y datganiad yn ymdrin â threfniadau mewnol adeiladau (mae'r rhain wedi eu diogelu gan Rhan M y Reoliadau Adeiladu), er y gall fod yn werthfawr i amlygu unrhyw rinweddau neu egluro'r rheswm dros unrhyw wendidau.

Rhaid i'r datganiad gynnwys yr/gwmpasu'r ardal yn union o amgylch y datblygiad (ee mynedfeydd o'r ffordd neu gynllun y maes parcio.

Bydd angen i'r datganiad ystyried yr ardal o fewn yr hyn mae'r datblygiad wedi ei leoli (e e mynedfeydd o feysydd parcio cyhoeddus, gorsafoedd bysiau, lleoliad swyddfeydd post/toiledau cyhoeddus)

Gofyniad

Disgwylir datganiadau mynediad yn awr drwy ddeddf ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio.

Hyd

Gall yr hyd amrywio o ychydig iawn o frawddegau i adroddiad cynhwysfawr. Bydd swm y

manylion yn dibynnu at ba mor gymhleth yw'r cais.

Cynnwys

Nid bwriad y nodiadau canlynol yw cynnwys yr holl faterion y dylid/gellir eu cynnwys, fe'u bwriedir i hybu meddwl. Ni ddylech gymryd yn ganiataol y byddai cyfyngu eich hun i'r rhestr isod yn ddigonol ym mhob achos.

Enghraifft 1 - Datblygiad Tai

- A ellir cael mynediad rhwydd i'r maes parcio o'r drws ffrynt?
- A yw'n wastad, a yw'n ddigo lydan i ganiatáu i ddrysau ceir agor yn llawn?
- All unigolyn fynd heibio ceir a barciwyd i gael mynediad i'r eiddo?
- All pobl gyda symudedd cyfyngedig ddefnyddio'r ardd breifat?
- All rhywun gyda symudedd cyfyngedig fynd o'r safle i arosfa bws neu neuadd gymunedol?
- A ddarperir palmant cyffyrddol?

Enghraifft 2 - Newid defnydd i fwyty

- Pa mor bell yw'r maes parcio?
- Sawl gofod parcio i'r anabl a ddarperir?
- Pa mor hawdd yw mynd o'r `maes parcio i'r byrddau?
- Pa raddiant, llethrau, pellter, ymylon palmentydd sydd yn y cyffiniau?
- Allech chi gyrraedd yno gyda chludiant cyhoeddus?
- Petaech yn mynd yno mewn bws mini hygyrch allech chi aros a dadlwytho'n ddiogel?
- A yw'r arwyddion yn gwbl eglur a darllenadwy i bobl gyda golwg cyfyngedig?

Enghraifft 3 - Defnydd arall

Mae'n annhebygol y defnyddir peth datblygiad gan bobl anabl a dylai'r datganiad adlewyrchu'r rhesymau y tu ôl i hyn. Er hynny peidiwch ag anghofio bod rhaid i beth defnydd, cyfleusterau chwaraeon er enghraifft, fod ar gael i bobl gydag anabledd dros dro.

Enghraifft 4 - Datblygiad Diwydiannol

- A yw maes parcio'r anabl yn gos i'r fynedfa, os oes mynedfa staff ar wahân a yw'n agos i'r ddau?
- A yw'r holl gyfleusterau yn gyraeddadwy i bawb? e e cyfleusterau ffreutur neu ymolchi
- A yw unrhyw arwyddion yn eglur a darllenadwy?

Enghraifft 5 - Ceisiadau Amlinellol

- Pa nodweddion dyluniad a gynhwysir yn y cyflwyniad manwl?
- A yw'r lleoliad o ran siopau, arosfannau bysiau a graddiant yn briodol?

Mae cyngor pellach ar gael yng nghyhoeddiadau Comisiwn Hawliau Anabl sef "Access Statements" a "Planning, Buildings, Streets and Disability Equality" y gellir eu gweld ar eu gwefan **www.dotheduty.org.**

Mae'r Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiliedig (CBAA) yn cynhyrchu arweiniad byr ar sut i ysgrifennu datganiadau mynediad ar gael i'w lawrlwytho o **www.cabe.org.uk.**

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Adran Gynllunio,
Neuadd y Dref, Stryt y Lampint,
Wrecsam, LL11 1AR.
Ffôn: (01978) 292017
Fax: (01978) 292502
e-bostl: planning@wrexham.gov.uk
www.wrexham.gov.uk

Hydref 2007